| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Medi 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Hugh Evans**<br>**Arweinydd y Cyngor** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Mohammed Mehmet**<br>**Prif Weithredwr** |
| **Teitl:** | **Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus** |

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Mae'r adroddiad yn egluro cefndir y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ('Y Comisiwn') ac yn cyflwyno ymateb drafft i gais y Comisiwn am dystiolaeth.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Gofynnwyd i'r cyngor ddarparu tystiolaeth i'r Comisiwn ar chwe maes allweddol: Perfformiad; Graddfa a Galluogrwydd; Cymhlethdod; Llywodraethu, Darparu ac Archwilio; Diwylliant ac Arweinyddiaeth; a Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Prif Weithredwr wedi paratoi ymateb drafft o dan bob un o'r penawdau hyn. Mae'r drafft wedi'i atodi yn Atodiad 1 ac mae angen penderfynu a fydd y drafft yn cael ei gyflwyno, wedi'i ddiwygio fel y bo'n briodol gan aelodau, yn ymateb ffurfiol gan y cyngor i'r cais am dystiolaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

**(i)** Ystyried yr ymateb drafft i gais y Comisiwn am dystiolaeth, a'i ddiwygio os yw'n briodol;
**(ii)** Cyflwyno'r ymateb a gynigiwyd (Atodiad 1), wedi'i ddiwygio gan gyfarfod y cyngor, i'r Comisiwn yn dystiolaeth gan Gyngor Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr Adroddiad

**4.1** Sefydlwyd y Comisiwn gan Brif Weinidog Cymru yn Ebrill 2013, o dan gadeiryddiaeth Syr Paul Williams. Mae cylch gwaith eang gan y Comisiwn ac mae'r Prif Weinidog wedi gofyn iddo gyflwyno adroddiad erbyn Rhagfyr 2013.

**4.2** Nod y Comisiwn yw 'edrych yn ofalus, yn onest ac yn wrthrychol ar y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yng Nghymru, a sut y gallwn wella ar hyn.' Mae'r dyfyniad canlynol o ddatganiad y Prif Weinidog yn crynhoi sail resymegol y Comisiwn:

*'Mae'n boenus o amlwg bod sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu heriau difrifol, tymor hir a chynyddol wrth gyflawni'r rhwymedigaethau hynny. Gwyddom fod yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn gyfyngedig ar y gorau, ac nad oes fawr o obaith o dwf mewn termau real yn y dyfodol rhagweladwy. Gwyddom fod y galw am wasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu, oherwydd y sefyllfa ariannol fyd-eang ac oherwydd disgwyliadau cynyddol a newidiadau cymdeithasol a demograffig. Gwyddom fod prinder endemig o ran arbenigedd rheoli a phroffesiynol mewn rhannau o'r sector cyhoeddus. Gwyddom fod rhai sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn ei chael yn anodd wynebu'r her y mae hyn i gyd yn ei chyflwyno, a gwyddom nad yw hyn yn gynaliadwy nac yn dderbyniol yn y tymor hwy.*

*Ni all yr un Llywodraeth gyfrifol ganiatáu i hyn barhau. Felly, mae angen inni edrych yn galed, yn onest ac yn wrthrychol ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn awr, a sut y gallwn wella'r gwasanaethau hynny. Bydd y comisiwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud hynny. Rwyf wedi cyhoeddi cylch gwaith manwl y comisiwn heddiw. Yn y cylch gwaith nodir y bydd gofyn iddo ddarparu asesiad gwrthrychol ac awdurdodol o'n trefniadau ar hyn o bryd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, a'u gallu i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol; datblygu a chynnig y model gorau posibl o lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus i Gymru yng ngoleuni'r asesiad hwnnw; ac ymgysylltu'n eang, gan gynnwys â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac â'r gweithlu sy'n eu darparu ac yn eu rheoli.'*

**4.3.** Ym mis Mehefin 2013 ysgrifennodd Syr Paul Williams at sefydliadau'r sector cyhoeddus i'w hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Comisiwn drwy ymateb i'w gais am dystiolaeth. Mae'r cais am dystiolaeth yn cynnwys chwe phrif thema, sef:

- Perfformiad
- Graddfa a Galluogrwydd
- Cymhlethdod
- Llywodraethu, Darparu ac Archwilio
- Diwylliant ac Arweinyddiaeth
- Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae templed wedi'i gylchredeg sydd wedi'i seilio ar y themâu hyn. O dan bob thema mae 4-6 o gwestiynau lefel uchel sydd hefyd wedi'u rhannu'n nifer o faterion a chwestiynau manwl.

Y terfyn amser gwreiddiol ar gyfer cyflwyno ymatebion oedd diwedd Awst 2013 ond mae hyn wedi'i ymestyn i ddiwedd Medi 2013.

4.4 Mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu gweithgor bach o swyddogion o bob rhan o'r cyngor i baratoi ymateb y cyngor. Dros gyfnod o fis mae ymateb manwl wedi'i baratoi sy'n cynnig sylwadau am bob un o'r chwe maes. Mae'r ymateb hwn wedi'i atodi yn Atodiad 1.

4.5 Cylchredwyd drafft cynnar o'r ddogfen hon i arweinwyr y grwpiau i gael sylwadau ganddynt. Cafodd ei gyflwyno hefyd i Dîm Uwch Arweinwyr y swyddogion i'w herio ac i gael sylwadau pellach.

4.6 Yn ogystal â'r ymateb drafft, mae'r Prif Weithredwr wedi cyflwyno'r papur 'Arweinyddiaeth yng Nghyngor Sir Ddinbych' sy'n cyfleu ei farn ei hun am y ffordd y mae arweinyddiaeth a pherfformiad wedi gwella yng Nghyngor Sir Ddinbych ac mae'n ei gynnig yn dystiolaeth i'r Comisiwn. Mae'r papur hwn wedi'i atodi er gwybodaeth yn Atodiad 2.

4.7 Gofynnir i aelodau wneud sylwadau, diwygio a chytuno i gyflwyno'r ddogfen sydd wedi'i hatodi yn Atodiad 1 yn ymateb ffurfiol gan Gyngor Sir Ddinbych i'r cais am dystiolaeth.

4.8 Gyda golwg ar lywodraeth leol, mae'r Comisiwn yn ystyried a ddylid newid y trefniadau sefydliadol presennol. Yn benodol, mae'n ymddangos bod y Comisiwn wedi dod i'r casgliad bod y nifer presennol o 22 o gynghorau unedol yn anghynaliadwy. Mae'n ymddangos bod y casgliad hwn yn deillio o ddatganiad y Prif Weinidog uchod bod rhaid gwella cost a pherfformiad llywodraeth leol ac na ellir cael y gwelliannau o'r fath o barhau â'r sefyllfa bresennol.

4.9 Mae'n bosibl y bydd aelodau am ystyried a ddylid ymateb i'r cwestiwn hwn a chynnig barn ystyriol gan Gyngor Sir Ddinbych i'w chynnwys yn y fersiwn terfynol o ymateb y cyngor. O dan yr adran ar 'Graddfa a Galluogrwydd' yn yr ymateb sydd wedi'i gynnig (Atodiad 1) derbynnir y *dylai* nifer llai o gynghorau mwy roi gwell gwerth am arian. Serch hynny, nid yw'r ddogfen yn rhoi ateb uniongyrchol i'r cwestiwn: pa nifer o gynghorau unedol y dylid ei gael? Nid oes ffordd wrthrychol o gael ateb cywir: mater o farn wleidyddol yw hyn. Mae'n ymddangos mai'r opsiynau mwyaf credadwy yw:

Opsiwn 1: mae 22 yn nifer priodol, nid ydym o blaid newid y nifer hwn

Opsiwn 2: dylid cael dau gyngor yn lle'r chwech yng Ngogledd Cymru

Opsiwn 3: rydym yn credu y byddai'n well cael llai o gynghorau ond nid oes gennym nifer i'w gynnig

Opsiwn 4: rydym yn credu y gellir gostwng nifer y cynghorau yng Ngogledd Cymru i dri ac y gellir cyfuno nifer o gynghorau llai yn Ne Cymru hefyd

Opsiwn 5: nid ydym wedi ffurfio barn.

## 5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Ni fydd y penderfyniadau a geisir yn yr adroddiad hwn yn effeithio ar flaenoriaethau corfforaethol y cyngor.

## 6. Beth fydd ei gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes goblygiadau o ran cost yn yr adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y penderfyniad?

Nid oes goblygiadau o ran cydraddoldeb yn yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghori a gafwyd â'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Mae'r ymateb drafft wedi'i baratoi gan y Prif Weithredwr, gyda chymorth grŵp o swyddogion o bob rhan o'r cyngor. Roedd y grŵp yn cynnwys:

Ivan Butler, Pennaeth Archwilio Mewnol
Jenny Elliot, Rheolwr Ansawdd a Pherfformiad
Bethan Jones-Edwards, Swyddog Cydweithrediad Rhanbarthol
Paul Mcgrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau
Vicky Poole, Rheolwr y Canolbwynt Comisiynu
Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Alan Smith, Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad
Tony Ward, Rheolwr y Tîm Gwella Corfforaethol
Eleri Williams, Rheolwr Busnes a Pherfformiad

Gofynnwyd i reolwyr sicrhau bod aelodau'r grŵp hwn yn gallu cael cyngor a chymorth gan bob swyddog yn y cyngor.

Cyflwynwyd fersiwn cynharach o'r ymateb drafft i Dîm Uwch Arweinwyr y swyddogion mewn cyfarfod rheoli arbennig. Hefyd rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad ar y materion sydd wedi'u trafod yn yr ymateb mewn cynhadledd i reolwyr canol.

Anfonwyd yr un fersiwn cynharach hefyd at arweinwyr y grwpiau gwleidyddol i gael sylwadau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Er nad oes goblygiadau ariannol yn yr adroddiad ei hun, byddai'r canlyniad i waith y comisiwn yn gallu cael effaith sylweddol ar ddyfodol y Cyngor.

## 10. Pa risgiau sy'n gysylltiedig a beth y gellir ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno ymateb i'r cais am dystiolaeth yn ymwneud ag enw da yn bennaf. Byddai ymateb da i'r gwaith hollbwysig hwn yn gallu dylanwadu ar ffurf gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes gofyniad cyfreithiol i'r cyngor ymateb i'r cais am dystiolaeth gan y Comisiwn. Fodd bynnag, o ystyried y goblygiadau posibl o ganlyniad i'r gwaith hwn, i Gyngor Sir Ddinbych ac i'r sector cyhoeddus ehangach, mae'n bwysig bod y penderfyniad ynghylch a ddylid ymateb a hefyd ynghylch cynnwys yr ymateb hwnnw yn cael ei wneud gan y cyngor llawn.